


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Cyllideb Atodol 2014-15 Memorandwm Esboniadol

Chwefror 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:


**Cyfathrebu'r Cynulliad**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**


Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.


**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Cyllideb Atodol 2014-15
# Memorandwm Esboniadol

Chwefror 2015


Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Cynnwys


01.Cefndir ........ 2

Memorandwm Esboniadol ........ 2

Cyllideb Adnoddau ........ 2

Gwariant a Reolir yn Flynyddol ........ 3

Effaith y Gyllideb ........ 3

02.Cwmpas y Gyllideb ........ 4

# 01.Cefndir

Cafodd Cyllideb y Comisiwn **ar gyfer 2014-15** ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Tachwedd 2013, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Roedd y cynnig cyllideb yn darparu £50.600 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn gan ddarparu:

– £36.500 miliwn i wasanaethau'r Cynulliad; a

– £14.100 miliwn ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Darparwyd £0.750 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb gymeradwy y Comisiwn, drwy Gynnig ar y Gyllideb Atodol.

## Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd cynyddu cyfanswm yr Incwm y caniateir i'r Comisiwn ei gronni, a chynyddu'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn unol â'r rhagamcanion.

## Cyllideb Adnoddau

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu cynnydd yn lefelau'r incwm a gafodd y Comisiwn heb wneud unrhyw newid i'r terfyn o fewn cwmpas y Gyllideb.  Canlyniad hyn yw bod y Comisiwn mewn perygl o fethu ag ail-fuddsoddi'r incwm ar gyfer darparu ei wasanaethau ac yn hytrach yn gorfod dychwelyd y swm sydd dros ben i Gronfa Gyfunol Cymru.

Y prif resymau am y cynnydd yw:

– mwy o gymorth ar gyfer datblygiad staff trwy gyfleoedd i fynd ar secondiadau allanol sy'n cynhyrchu incwm mewn perthynas â chostau cyflogau;

– cynnydd o ran defnyddio'r maes parcio ac felly cynnydd yn yr incwm o ffioedd parcio;

– gwerthu offer sydd wedi mynd y tu hwnt i'w oes ddefnyddiol o ran gofynion y Comisiwn ond sy'n dal i fod â gwerth yn y farchnad ehangach.

Mae angen i'r Comisiwn fanteisio i'r eithaf ar ddefnyddio incwm i gefnogi buddsoddiad mewn gwasanaethau a rheoli incwm a gwariant yn briodol fel adnodd.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Pwrpas yr addasiad hwn yw sicrhau bod darlun cywir a theg o atebolrwydd y Cynllun yn cael ei gofnodi ar fantolen y Comisiwn; nid yw'n adlewyrchu'r symiau ariannol a dalwyd gan y Comisiwn i'r Cynllun. Nid oes unrhyw ofyniad cysylltiedig o ran arian parod ac ni fydd gwneud newidiadau iddo yn effeithio ar gyllideb adnoddau'r Comisiwn na'r gwasanaethau a ddarperir.

Ni fydd modd cyfrifo'r gwerth terfynol tan wedi 31 Mawrth, ond gofynnir am amcangyfrifon gan gynghorwyr proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Yn seiliedig ar gyfrifiadau sy'n adlewyrchu newidiadau hysbys i'r gyfradd ddisgownt a newidynnau eraill sy'n effeithio ar atebolrwydd amcangyfrifedig y cynllun, mae'r amcangyfrif diweddaraf ychydig o dan £1.0 miliwn.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol, o ran gwariant a reolir yn flynyddol, o £1.200 miliwn er mwyn sicrhau bod digon o arian wrth gefn i reoli unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau terfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

## Effaith y Gyllideb

Bydd y Cynnig Cyllideb Atodol yn cynnig cynnydd i'r:

– terfyn ar gronni adnoddau o £0.150 miliwn i £0.400 miliwn

– Cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol o £0.450 i £1.200 miliwn

# 02.Cwmpas y Gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 i helpu i lunio Cynnig Cyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau a gofynion gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2015.

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net a ragwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod talu amdanynt.

Nodir y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yn 2014-15, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn, isod yn Nhabl 1.

**Tabl 1**

| | **£000oedd diwygiedig** |
|---|---|
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau refeniw a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | 36,500 |
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau. | 14,100 |
| *Cyfanswm yr arian, ar wahân i arian cronnus* | *50,600* |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â darparu Pensiwn Aelodau'r Cynulliad | 1,200 |
| Arian cronnus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:<br><br>Arian cronnus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:<br><br>o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br><br>incwm rhent; anrhegion; cymorth grant; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Cynulliad. | 400 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei adennill. | 46,448 |

Mae Tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r gofyniad tynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

| **Tabl 2 – Gofyniad ariannol** | **£000oedd 2014-15 diwygiedig** |
|---|---|
| **Gofyniad Refeniw Net yr Aelodau** | 14,100 |
| **Gofyniad Refeniw Net y Comisiwn** | 36,000 |
| **Gofyniad cyfalaf net** | 500 |
| **Darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad** | 1,200 |
| ***Addasiadau:*** | |
| **Dibrisiant** | (4,000) |
| **Newidiadau yn y ddarpariaeth** | (1,200) |
| **Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr** | (252) |
| **Defnydd o ddarpariaethau** | 100 |
| **Gofyniad ariannol net i'w gymryd o Gronfa Gyfunol Cymru** | 46,448 |